# Enwi – Datblygu Geiriau Cyntaf

Rhan bwysig o ddatblygu enwau yw dechrau enwi gwrthrychau bob dydd. Mae angen i blant glywed geiriau sawl gwaith cyn iddyn nhw ddechrau eu defnyddio.

Eitemau bob dydd/ lluniau/ hoff deganau yw'r geiriau y bydd plant fwyaf cyfarwydd â nhw ac felly'r rhai y byddan nhw'n cael eu cymell i'w defnyddio gyntaf. Mae ehangu geirfa yn ddefnyddiol ar gyfer dysgu iaith eich plentyn.

**Beth i'w wneud?**

- Defnyddiwch fag (cas clustog, bag ymarfer corff) a rhowch ddewis o wrthrychau bob dydd (tua 10) y tu mewn.

  Brwsh, cwpan, esgid, llyfr, tedi, ac ati.

- Gadewch i'r plentyn deimlo y tu mewn i'r bag a thynnu rhywbeth allan.
- Wrth i hyn ddigwydd, aroswch i weld a yw'r plentyn yn enwi'r eitem yn ddi-dor.
- Os na fydd hyn yn digwydd, rhowch ddewis. (e.e., '*ai brwsh neu gar ydy o?*').
- Os nad yw hyn yn annog yr enw, gallwch *chi eich hun* enwi'r eitem. Ailadroddwch lawer i roi cyfle i'r plentyn wrando ar y gair.
- Dangoswch beth yw pwrpas yr eitem wrth i chi ddweud y gair (e.e. *esgus yfed wrth i chi ddweud 'cwpan'*).
- Pan fydd y bag yn wag, gwrthdrowch y gweithgaredd fel bod y plentyn yn codi gwrthrych, gan ei enwi wrth iddo fynd yn ôl





**Am syniadau pellach edrychwch ar y fideo**

SCAN ME

[www.llyw.cymru/siarad-](www.llyw.cymru/siarad-)

**Sut?**

**Dewiswch un neu ddau air i ganolbwyntio arnyn nhw am wythnos neu gyhyd ag sy'n angenrheidiol i'ch plentyn.**

**Efallai mai geiriau y mae eich plentyn eisoes yn ceisio eu dweud ydyn nhw.**

**Eu roi ar waith**

- Defnyddiwch wrthrychau cyfarwydd a phethau o ddiddordeb mawr.
- Defnyddiwch luniau o bobl gyfarwydd.
- Cadwch eich iaith yn syml; defnyddiwch un neu ddau air yn unig fel ei bod hi'n haws canolbwyntio ar enwau pethau.
- Defnyddiwch ystumiau/arwyddion ochr yn ochr â'r gair.
- Mae llai o bwysau os ydych chi'n cymryd eich tro i dynnu rhywbeth allan o'r bag.
- Defnyddiwch nifer fach o eitemau ac ailadroddwch sawl gwaith yn ystod y dydd.
- Anogwch i'ch plentyn ddechrau trwy ddweud 'mae'n ...'

**Symud ymlaen…**

Pan fyddwch chi'n teimlo eich bod yn hyderus gyda'r strategaeth hon, nesaf, ceisiwch **gyflwyno berfau (geiriau gweithredu).** Defnyddiwch gyfleoedd pan fyddan nhw'n codi – mynd am dro, chwarae gyda theganau neu ar adegau bwyd. **Cerdded, neidio, clapio,**